

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol (â  
rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg,  
Gofal Deintyddol  
Porthcawl**

26 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

|    |                                                                   |    |
|----|-------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                                                   | 2  |
| 2. | Methodoleg .....                                                  | 2  |
| 3. | Cyd-destun.....                                                   | 4  |
| 4. | Crynodeb .....                                                    | 5  |
| 5. | Canfyddiadau .....                                                | 7  |
|    | Profiad y Claf.....                                               | 7  |
|    | Cyflenwi Hanfodion Gofal ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ..... | 9  |
|    | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....                                  | 12 |
|    | Ansawdd yr Amgylchedd .....                                       | 15 |
| 6. | Y Camau Nesaf.....                                                | 18 |
|    | Atodiad A.....                                                    | 19 |

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad â rhybudd o Ofal Deintyddol Porthcawl, yn 34 Rhodfa Fictoria, Porthcawl, CF36 3HG, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 26 Ionawr 2015.

Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.<sup>1</sup>

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

<sup>1</sup>Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Porthcawl yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Porthcawl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd (perchen y practis a'r deintydd cysylltiol), dwy nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis/nyrs ddeintyddol.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Gofal Deintyddol Porthcawl yn bodloni'r safonau gofal a geir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd y cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Nid oedd gan y practis system ffurfiol ar gyfer casglu barn cleifion ar eu profiad. Felly, rydym wedi argymhell y dylid rhoi system ar waith er mwyn i welliannau gwasanaeth gael eu gwneud yn ôl yr angen.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r dogfennau allweddol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X ar gael i'w harchwilio, na'r rhai er mwyn rhoi tystiolaeth bod y practis yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05). Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r ymateb a gafwyd wedi rhoi sicrwydd inni fod y camau priodol wedi'u cymryd.

Roedd gan y practis dîm sefydledig a oedd yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn y swydd gan berchen y practis a'r rheolwr.

Er bod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y rhain yn perthyn i drefniadau gwaith cyfredol y practis. Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod y polisiâu wedi cael eu diweddarau ac y byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rhoddwyd sicrwydd inni fod y camau priodol wedi'u cymryd.

Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno er mwyn iddi gyd-fynd â *Gweithio i Wella*, y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.

Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol – yn fewnol ac yn allanol. Roedd y mannau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn lân ac yn daclus.

Roedd mesurau ar waith er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad at fannau staff yn unig. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis wneud trefniadau addas i wella diogelwch ar gyfer y mannau staff yn unig a'r ystafell storio. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn ar

ôl yr arolygiad, ac rydym wedi derbyn sicrwydd bod camau wedi'u cymryd. Rydym hefyd wedi argymhell y dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau nad yw offer sydd wedi ei storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell aros yn peri perygl.

Roedd cyfleusterau clinigol yn y practis wedi'u trefnu er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion sy'n derbyn triniaeth ddeintyddol.



## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

Dywedodd y cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Nid oedd gan y practis system ffurfiol ar gyfer casglu barn cleifion ar eu profiad. Felly, rydym wedi argymhell y dylid rhoi system ar waith er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom eu bod yn gwrtais ac yn foesgar wrth gleifion. Cafwyd yr argraff bod llawer o'r cleifion a oedd yn mynychu'r practis yn adnabod y staff yn dda. Roedd hyn yn cyfrannu at yr awyrgylch cyfeillgar yn y practis.

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Dychwelwyd cyfanswm o bum holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd y cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan y practis, eu bod wedi derbyn croeso mawr gan staff y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

*'Croeso mawr gan y staff'*

*'Bob amser' [yn fodlon ar y gwasanaeth]*

*'Dim oedi' [wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod yr apwyntiad]*

Cawsom mai'r brif rwystredigaeth gan y cleifion a roddodd sylwadau yn yr holiaduron a gwblhawyd oedd diffyg darpariaeth gofal y GIG yn yr ardal.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oediadau sylweddol wrth aros i weld y deintydd. Dywedodd staff fod proses ar waith er mwyn rhoi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Gwelsom nad oedd gan dîm y practis ddull ffurfiol o geisio barn cleifion ar ansawdd y gofal roeddent wedi derbyn. Felly, rydym wedi argymhell y dylai'r practis roi system ar waith er mwyn casglu adborth gan gleifion, â'r nod o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r practis roi system ffurfiol ar waith er mwyn casglu adborth gan gleifion, â'r nod o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.***

## ***Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru***

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r dogfennau allweddol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X ar gael i'w harchwilio, na'r rhai er mwyn rhoi tystiolaeth bod y practis yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05). Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r ymateb wedi rhoi sicrwydd inni fod y camau priodol wedi'u cymryd.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Er bod y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth ar gael, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gwiriadau diogelwch wedi'u cynnal ar yr offer. Yn ogystal, nid oedd llythyr hysbysu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gael, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99)<sup>2</sup>.

Felly, gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y practis bod systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg.

### ***Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith***

***Mae'n rhaid i'r practis gymryd camau priodol i sicrhau ei fod yn gallu dangos bod systemau diogel ar waith ynglŷn â defnyddio offer radiograffeg.***

Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd, ac rydym wedi derbyn sicrwydd bod system addas ar gyfer gwiriadau diogelwch wedi'i rhoi ar waith ynglŷn â'r uchod.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith er mwyn ymateb i argyfyngau cleifion ac ymdrin â nhw.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys ar gyfer argyfwng cleifion (llewyg) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos bod hyfforddiant staff ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i weinyddu dadebru cardio-pwlmonaidd wedi cael ei ddiweddarau. Gwelsom fod system ar waith ar gyfer gwirio dyddiadau daw i ben cyffuriau brys, er mwyn

---

<sup>2</sup> <http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/notification.htm>

nodi cyffuriau a oedd yn agos at y dyddiad hwn a rhoi rhai newydd yn eu lle. Roedd hyn yn golygu bod gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at offer achub bywyd a chyffuriau i'w galluogi i weithredu ar unwaith pe bai claf yn llewygu. Er bod yr holl gyffuriau brys wedi'u storio'n ddiogel, gwnaethom argymhell y dylid gwella diogelwch ynglŷn â storio padiau rhagnodi.

Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn dangos y dull cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu. Er nad oedd dogfennaeth contract ar gael ar gyfer yr arolygiad, gwelsom gopïau o nodiadau trosglwyddo a oedd yn cadarnhau bod gwastraff wedi cael ei gasglu'n ddiogel o'r practis.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05)<sup>3</sup>.

Gwelsom fod y system ar gyfer glanhau a dadheintio offerynnau'n foddhaol. Roedd cofnodion o wiriadau dyddiol wedi'u cynnal, ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio i'w weld mewn cyflwr da. Rydym wedi argymhell y dylai perchen y practis wneud trefniadau i sicrhau bod cronfa ddŵr yr awtoclaf yn cael ei gwagio ar ddiwedd y dydd, yn hytrach na'r bore wedyn, er mwyn lleihau'r tyfiant o ficro-organeddau dros nos.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cronfa ddŵr yr awtoclaf yn cael ei gwagio ar ddiwedd y dydd, er mwyn lleihau'r tyfiant o ficro-organeddau dros nos ymhellach.***

Er bod prosesau diogel ar waith ar gyfer glanhau cyn sterileiddio, sterileiddio, a storio offer, nid oedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân. Byddai ystafell ar wahân, ynghyd â'r defnydd o brosesau rheoli addas, yn lleihau'r risg o groesheintio rhwng offerynnau ymhellach. Gwnaethom drafod hyn â pherchen y practis, a ddywedodd ei fod yn ystyried neilltuo ystafell ddadheintio ar wahân fel rhan o ddatblygiadau'r practis yn y dyfodol.

Gwelsom fod yr offerynnau yn cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio, cyn iddynt gael eu storio.

---

<sup>3</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd wedi'u cynnal, yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Felly, gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y practis y byddai archwiliadau o'r fath yn cael eu cynnal. Mae'r rhain yn caniatáu i dimau deintyddol hunanasesu eu harferion yn unol â pholisïau a chanllawiau'r Memorandwm a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen i sicrhau dulliau diogel o weithio.

### ***Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith***

***Mae'n rhaid i'r practis gymryd camau addas er mwyn sicrhau ei fod yn gallu dangos ei fod yn defnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac yn cynnal yr archwiliadau sy'n gysylltiedig ag ef.***

**Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd inni, a rhoddwyd sicrwydd inni fod trefniadau addas wedi'i rhoi ar waith ynglŷn â'r uchod.**

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol bob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu defnydd sengl er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwnaethom edrych ar sampl o wyth cofnod deintyddol cleifion. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion ar gyfer y ddau ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd cofnodion papur yn cael eu defnyddio yn y practis, ond dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n trosglwyddo i system electronig ar gyfer cadw cofnodion. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn cynnwys y rheswm dros apwyntiadau'r cleifion, yn ogystal â'r gofal a'r driniaeth a roddwyd gan y deintydd.

## ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Roedd gan y practis dîm sefydledig a oedd yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn y swydd gan berchen y practis a'r rheolwr.**

**Er bod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y rhain yn ymwneud â'r trefniadau gwaith cyfredol yn y practis. Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod y polisïau wedi cael eu diwedddaru ac y byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rhoddwyd sicrwydd inni fod y camau priodol wedi'u cymryd.**

**Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno er mwyn iddi gyd-fynd â Gweithio i Wella, y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.**

Roedd gan y prif ddeintydd (a oedd hefyd yn berchen y practis) gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis, ac roedd yn cael ei gefnogi gan reolwr practis. Roedd y prif ddeintydd wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Hefyd, roedd deintydd cysylltiol wedi'i gyflogi ar sail rhan amser.

Roedd y ddau ddeintydd yn darparu gofal deintyddol preifat, ac yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<sup>4</sup> wedi'u gofrestru gydag AGIC. Gwnaethom eu hatgoffa o'r angen i arddangos eu tystysgrifau cofrestru mewn lle amlwg. Cytunodd y ddau ddeintydd i wneud hyn.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y rhain yn gyfredol nac yn perthyn i drefniadau presennol y practis. Roedd hyn oherwydd nad oedd dyddiad arnynt i ddweud pryd y cytunwyd arnynt, neu'r tro diwethaf iddynt gael eu hadolygu. Hefyd, nid oedd enw presennol y practis arnynt. Rydym yn disgwyl i wasanaethau gofal iechyd weithredu polisïau clir a chadarn. Felly, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod trefniadau addas wedi'u rhoi ar waith. Hynny yw, dylid sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu'r trefniadau cyfredol ac y byddent yn cael eu hadolygu a'u diwedddaru yn rheolaidd.

---

<sup>4</sup>Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

## ***Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n sail i waith y practis yn adlewyrchu trefniadau cyfredol y practis. Dylid rhoi system addas ar waith i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.***

**Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd, a rhoddwyd sicrwydd inni fod system addas wedi'i rhoi ar waith ynglŷn â'r uchod.**

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â'r gwaith sydd ganddynt. Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis, a bod testunau sy'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu trafod.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom edrych ar dair ffeil ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff a gweld bod staff yn cofnodi tystiolaeth o'r hyfforddiant maent wedi'i fynychu er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau perthnasol ac a oedd wedi diweddarau eu hyfforddiant.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol yn breifat ac i'r GIG. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon (cwynion) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gweld bod dau fersiwn gwahanol ar waith, ac felly nid oeddem yn gallu bod yn sicr pa un oedd y mwyaf diweddar. Yn ogystal, nid oedd y gweithdrefnau'n gyson â Gweithio i Wella, y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. Felly, rydym wedi argymhell y dylai'r practis adolygu'r weithdrefn er mwyn iddi gyd-fynd â threfniadau Gweithio i Wella, yn ogystal â bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer gofal deintyddol preifat.

## ***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno bresennol er mwyn sicrhau ei bod wedi'i diweddarau ac yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.***

Gwnaethom edrych ar y cofnodion cwyno a gweld bod un gŵyn wedi cael ei gwneud yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd hon yn mynd rhagddi. Roedd copïau o'r ohebiaeth yn dangos bod y practis wedi cydnabod y gŵyn ac ymateb iddi o fewn cyfnod rhesymol.

Er bod copïau o gwynion ysgrifenedig/ffurfiol yn cael eu cofnodi ar ffeil, nid oedd cwynion llafar/anffurfiol yn cael eu cofnodi. Dywedodd wrthym fod y tîm, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl, yn ceisio datrys cwynion ar y pryd. Rydym wedi argymhell y dylai'r practis ystyried rhoi system ar waith er mwyn cofnodi cwynion llafar/anffurfiol – â'r bwriad o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ystyried rhoi system ar waith ar gyfer cofnodi cwynion llafar/anffurfiol er mwyn nodi themâu a thueddiadau. Dylid cymryd y camau sydd eu hangen er mwyn gwella'r gwasanaeth yn ôl yr angen.***



## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol – yn fewnol ac yn allanol. Roedd y mannau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn lân ac yn dachus.**

**Roedd mesurau ar waith er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag mynd i fannau staff yn unig. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion wneud trefniadau er mwyn gwella diogelwch mannau staff a'r ystafell storio. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn ar ôl yr arolygiad, ac rydym wedi derbyn sicrwydd bod camau wedi'u cymryd. Rydym hefyd wedi argymhell y dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau nad yw offer sydd wedi ei storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell aros yn peri perygl.**

**Roedd cyfleusterau clinigol yn y practis wedi'u trefnu er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion sy'n derbyn triniaeth ddeintyddol.**

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau o adeilad ar bwys canol tref Porthcawl. Nid oedd lleoedd parcio penodol ar gael ar safle'r practis, ond roedd rhywfaint o barcio ar gael ar y stryd y tu allan iddo. Roedd maes parcio cyhoeddus hefyd ar gael ar bwys y dref.

Roedd arwyddion clir at y practis, a oedd yn golygu ei fod yn hawdd ei gyrraedd o'r stryd. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis wedi eu harddangos yn glir, ynghyd a'r oriau agor a'r rhif cysylltu brys ar gyfer cleifion preifat. Gan fod y practis hefyd yn cynnig gwasanaethau'r GIG, dylid arddangos rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau, er mwyn rhoi rhif cyswllt ar gyfer cleifion, pe bai argyfwng pan fydd y practis ar gau.

## *Argymhelliad*

***Dylai'r practis wneud trefniadau er mwyn arddangos yn glir y rhif ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gyfer cleifion y GIG, er mwyn iddynt eu ffonio mewn argyfwng deintyddol.***

Roedd ramp i fynedfa'r practis, a oedd yn rhoi mynediad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, roedd grisiau yn arwain i lawr at y dderbynfa a'r ystafell aros ar y llawr daear. Roedd hyn yn golygu na fyddai defnyddwyr cadair olwyn yn gallu defnyddio'r ystafell aros. Dywedodd staff wrthym y byddent yn trefnu iddynt aros yn y coridor.

Roedd tŷ bach ar gyfer cleifion ar y llawr daear, ac roedd arwyddion clir ato. Fodd bynnag, roedd lleoliad y cyfleusterau hyn yn golygu nad oedd yn hygyrch

ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y tŷ bach yn lân, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael er mwyn atal croes-heintio.

Roedd gan y practis ddwy ystafell driniaeth – y ddwy ohonynt ar y llawr daear. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y ddwy ohonynt, a gweld bod ynddynt yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Roedd y dderbynfa, yr ystafell aros a'r tŷ bach hefyd ar y llawr daear – a grisiau'n arwain atynt. Gwnaeth ein harsylwadau nodi fod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a'r cleifion a oedd yn mynychu. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y man hwn yn lân ac yn daclus, a bod digon o olau, gwres ac awyr ffres – ac roedd felly yn darparu man cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt aros.

Roedd cwpwrdd yn yr ystafell aros a oedd yn cael ei ddefnyddio i storio offer, ac nid oedd hwn o dan glo. Rydym wedi argymhell y dylai perchen y practis wneud trefniadau i sicrhau nad yw hyn yn peri perygl i gleifion sy'n ymweld â'r practis.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau nad yw offer sy'n cael ei storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell aros yn peri perygl i gleifion.***

Roedd cyfleusterau staff ac ystafell storio ar y llawr cyntaf. Er bod y drysau i'r mannau hyn ar gau er mwyn atal mynediad gan bobl heb awdurdod, nid oeddent yn ddiogel rhag mynediad gan bobl heb awdurdod. Felly, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis bod trefniadau wedi'u gwneud er mwyn lleihau'r risg – cyhyd ag y bo modd – o fynediad heb awdurdod i'r mannau hyn.

### ***Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i leihau'r risg, cyhyd ag y bo modd, o fynediad posibl gan bobl heb awdurdod i fannau staff yn unig ar safle'r practis.***

**Mae'r practis wedi rhoi manylion ysgrifenedig o'r camau wedi'u cymryd, a rhoddwyd sicrwydd inni fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith er mwyn diogelu'r mannau a nodwyd.**

Roedd amrywiaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion ei ddarllen. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion sy'n dod i'r practis fynediad hawdd at

amrywiaeth o wybodaeth er mwyn iddynt ofalu am eu hylendid geneuol personol.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol y GIG ar gyfer pobl sydd wedi'u heithrio o dalu ffioedd, a thriniaeth ddeintyddol breifat trwy gynllun yswiriant iechyd. Roedd gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer triniaeth y GIG wedi'i harddangos yn glir. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion wybodaeth ynglŷn ag a fyddent yn gymwys am driniaeth am ddim. Er bod gwybodaeth am y cynllun yswiriant deintyddol ar gael, nid oedd y costau cysylltiedig wedi'u harddangos yn glir. Yn hytrach, dywedwyd wrthym fod y practis yn trafod y costau ac yn cytuno arnynt yn unigol ar gyfer pob claf. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl rhestr o ffioedd wedi'i harddangos, ac rydym wedi argymhell y dylai'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud hyn.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i arddangos rhestr o ffioedd sy'n nodi'r prisiau sy'n gysylltiedig â'r gofal a'r driniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir gan y practis.***

Roedd y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol – yn fewnol ac yn allanol. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos bod y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio o fewn y 12 mis diwethaf.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r meysydd profiad y claf, Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, arweinyddiaeth a rheolaeth, a'r amgylchedd. Ceir y manylion hyn yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym mhractis Gofal Deintyddol Porthcawl yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Gofal Deintyddol Porthcawl**

**Dyddiad yr Arolygiad: 26 Ionawr 2015**

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad                                                                                                                                                                   | Cam Gweithredu'r Practis                                                                                                                                            | Swyddog Cyfrifol | Amserlen  |
|----------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|
|                | <b>Profiad y Claf</b>                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                     |                  |           |
| 8              | Dylai'r practis roi system ffurfiol ar waith er mwyn casglu adborth gan gleifion, â'r nod o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.                                   | Rydym wedi rhoi llyfr sylwadau yn yr ystafell aros. Rydym yn ystyried creu taflenni gwybodaeth newydd ar gyfer y practis a fydd yn cynnwys adran ar gyfer sylwadau. | Sylvia Barnes    | Cwblhawyd |
|                | <b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>                                                                                                                     |                                                                                                                                                                     |                  |           |
| 9              | <u>Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith</u><br><br>Mae'n rhaid i'r practis gymryd camau priodol i sicrhau ei fod yn gallu dangos bod systemau diogel ar waith ynglŷn â defnyddio offer | [Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd inni. Roedd y cynllun gwella, dyddiedig 9 Chwefror 2015, yn cadarnhau bod:                                     | Sylvia Barnes    | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad                                                                                                                                                                                                                                               | Cam Gweithredu'r Practis                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Swyddog Cyfrifol              | Amserlen                 |
|----------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|--------------------------|
|                | radiograffeg.                                                                                                                                                                                                                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae llythyr hysbysu wedi'i anfon at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.</li> <li>Roedd peiriannydd cymwysedig i ddod i archwilio, trin ac ardystio'r offer perthnasol o fewn un mis.]</li> </ul>                                                                                                                  | Hywel Price<br>Hywel Price    | Cwblhawyd<br>Ymhen 1 mis |
| 10             | Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod cronfa ddŵr yr awtoclaf yn cael ei gwagio ar ddiwedd y dydd er mwyn lleihau'r tyfiant o ficro-organeddau dros nos ymhellach.                                                                                | Mae trefn newydd bellach ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Sara Townsend                 | Cwblhawyd                |
| 11             | <p><u>Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith</u></p> <p>Dylai'r practis gymryd y camau priodol er mwyn dangos ei fod yn dilyn y polisiau a'r canllawiau a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac yn cynnal yr archwiliadau sy'n gysylltiedig ag ef.</p> | <p>[Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd inni. Roedd y cynllun gwella, dyddiedig 9 Chwefror 2015, yn cadarnhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r practis wedi derbyn copi o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ynghyd â nifer o archwiliadau cysylltiedig.</li> <li>Roedd y deintyddion yn bwriadu cynnal yr</li> </ul> | Hywel Price<br>Eifion Roberts | Cwblhawyd<br>3 mis       |

| Rhif y<br>Dudale<br>n              | Argymhelliad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Cam Gweithredu'r Practis                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog Cyfrifol | Amserlen  |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|
|                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | archwiliadau gofynnol o fewn tri mis.]                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                  |           |
| <b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b> |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                  |           |
| 13                                 | <u>Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith</u><br><br>Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n sail i waith y practis yn adlewyrchu trefniadau cyfredol y practis. Dylid rhoi system addas ar waith i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen. | [Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd inni. Roedd y cynllun gwella, dyddiedig 9 Chwefror 2015, yn cadarnhau bod: <ul style="list-style-type: none"> <li>System newydd wedi'i rhoi ar waith lle roedd aelod penodol o staff wedi trefnu system o ffeiliau a ffolderi ar gyfer y polisïau – a fydd yn cael eu diweddarau a'u gwirio yn chwarterol.</li> </ul> | Sylvia Barnes    | 1 mis     |
| 13                                 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno bresennol er mwyn sicrhau ei bod wedi'i diweddarau ac yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.                                                                                                                                                                                  | Rydym wedi llawrlwytho'r dogfennau sydd eu hangen er mwyn gwella ein gweithdrefn gwyno. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn ôl 'Gweithio i Wella'.                                                                                                                                                                                                                | Wendy Roper      | Cwblhawyd |
| 14                                 | Dylai'r practis ystyried rhoi system addas ar waith ar gyfer casglu cwynion llafar/anffurfiol                                                                                                                                                                                                                               | Rydym wedi gosod system gyfrifiadurol sy'n ein galluogi i gynnal archwiliad o gwynion.                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Wendy Roper      | Cwblhawyd |

| Rhif y<br>Dudalen            | Argymhelliad                                                                                                                                                                                              | Cam Gweithredu'r Practis                                                                                                            | Swyddog Cyfrifol | Amserlen  |
|------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|
|                              | er mwyn nodi themâu a thueddiadau. Dylid cymryd y camau sydd eu hangen er mwyn gwella'r gwasanaeth yn ôl yr angen.                                                                                        |                                                                                                                                     |                  |           |
| <b>Ansawdd yr Amgylchedd</b> |                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                     |                  |           |
| 15                           | Dylai'r practis wneud trefniadau er mwyn arddangos yn glir y rhif ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gyfer cleifion y GIG, er mwyn iddynt eu ffonio mewn argyfwng deintyddol.                    | Mae'r rhif ffôn hwn wedi'i arddangos yn glir yn ffenestr flaen y practis, ac mae neges y peiriant ateb yn cyfeirio ato.             | Hywel Price      | Cwblhawyd |
| 16                           | Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau nad yw offer sy'n cael ei storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell aros yn peri perygl i gleifion.                                                             | Mae drws y cwpwrdd glanhau o fewn golwg clir y derbynnydd. Fodd bynnag, byddwn yn gosod boltt ar y drws y tu hwnt i gyrraedd plant. | Hywel Price      | 1 mis     |
| 16                           | <u>Gofyniad Sicrwydd ar Unwaith</u><br><br>Dylai'r practis wneud trefniadau addas i leihau'r risg, cyhyd ag y bo modd, o fynediad posibl gan bobl heb awdurdod i fannau staff yn unig ar safle'r practis. | [Rhoddodd y practis fanylion o'r camau wedi'u cymryd inni. Roedd y cynllun gwella, dyddiedig 9 Chwefror 2015, yn cadarnhau bod:     | Hywel Price      | 1 mis     |



| Rhif y Dudalen | Argymhelliad                                                                                                                                                                     | Cam Gweithredu'r Practis                                                                                            | Swyddog Cyfrifol | Amserlen  |
|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|
|                |                                                                                                                                                                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd clo cod wedi'i brynu – a oedd i gael ei osod o fewn un mis.</li> </ul> |                  |           |
| 17             | Dylai'r practis wneud trefniadau addas i arddangos rhestr o ffioedd sy'n nodi'r prisiau sy'n gysylltiedig â'r gofal a'r driniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir gan y practis. |                                                                                                                     | Eifion Roberts   | Cwblhawyd |

### Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): ....Hywel Price.....

Teitl: .....Mr.....

Llofnod: .....

Dyddiad: .....25/03/2015.....